Thomas Wynne, 1627–92
Crynwr a heddychwr

Fy anwyl Frodyr a Chwuorydd o wlad fyngenedigaeth, I mae yn amser i chwi ddeffro, oblegid dydd mawr yr Arglwydd a wawriodd, a chododd Haul y cyfiawnder, ac i mae yn discleirio oddifewn yngalonau meibion dynion, yn twymno ac yn cyssuro y rhai a'i carant ef.

Allan o The Antiquity of the Quakers *gan Thomas Wynne*

Brodor o Ysgeifiog, sir y Fflint, oedd Thomas Wynne, y pedwerydd o bump o feibion Thomas ap John Wynne, perchennog ystad Bronfadog. Pan oedd tua un ar ddeg oed bu farw ei dad ac ni allai ei fam fforddio rhoi addysg feddygol iddo fel y dymunai, felly fe'i prentisiwyd fel hwper, sef crefftwr a wnâi gasgenni, buddeiau a bwcedi. Er hynny daliodd ati i astudio meddygaeth trwy ddarllen llyfrau a gwylio meddygon lleol wrth eu gwaith. Tua 1653 fe ddaeth i gredu – efallai o dan ddylanwad John ap John, Apostol y Crynwyr yng Nghymru – ac o'r flwyddyn honno ymlaen ystyriai ei hun yn rhengoedd y Cyfeillion. Ar y pryd, mudiad cythryblus a threisgar oedd y Crynwyr yng Nghymru.

Ym 1655 priododd â Chrynwaig o'r enw Martha Buttall o Wrecsam, ac yn fuan gwireddwyd ei freuddwyd i fod yn feddyg. Derbyniodd hyfforddiant gan Richard Moore, meddyg o Amwythig, ac wedi sefyll arholiadau, enillodd drwydded i ddilyn galwedigaeth fel barbwr-feddyg ym 1659.

Yr oedd Thomas Wynne hefyd yn weithgar yn y cylchoedd ysbrydol ac yn ddilynwr i George Fox. Mudiad oedd y Crynwyr a roddai bwyslais ar oleuni mewnol. Iddynt hwy dim ond goleuni Crist yn y galon a roddai ddealltwriaeth o Dduw a materion ysbrydol. Nodweddid eu tröedigaethau a'u haddoliad yn fynych gan grynu corfforol a achosid, yn ôl eu dysgeidiaeth, gan rym Duw yn gweithio o'u mewn. Oherwydd eu hymarweddiad anarferol, eu cred bod yr Ysbryd uwchlaw'r Ysgrythur, a'r ffaith eu bod yn gwrthod tyngu llw mewn llysoedd barn, daethant o dan erledigaeth.

Dwysaodd hyn pan ddychwelodd y frenhiniaeth gyda gorseddiad Siarl II ym 1660. Trwy weithredu Deddf y Cyrddau a Deddf y Crynwyr 1662, a waharddai i fwy na phump o Grynwyr ymgynnull ar yr un pryd, ceisiwyd dinistrio'r Crynwyr. Yn y cyfnod hwn cyhoeddodd George Fox na fyddai Crynwyr byth eto'n codi arfau mewn rhyfel. Carcharwyd Thomas Wynne yng ngharchar Dinbych ym 1661 ac yno y bu am chwe blynedd. Wedi ei ryddhau ailgydiodd yn ei waith fel barbwr-feddyg yng Nghaerwys, ond wedi blynyddoedd lawer o erledigaeth penderfynodd carfan o Grynwyr, dan arweiniad William Penn, sefydlu tiriogaeth yn America lle y gallent addoli yn ôl eu cydwybod, a phrynodd Thomas Wynne 2,500 o erwau yn y diriogaeth a enwyd yn Pennsylvania. Ac yntau'n 55 oed, hwyliodd ef a'i wraig yno ar fwrdd y llong *Welcome*.

Aethant i fyw i Philadelphia ac yn raddol fe ddaeth Thomas Wynne yn arweinydd cymdeithasol. Ym 1683 fe'i penodwyd yn Llefarydd cyntaf cynulliad Talaith Pennsylvania gan William Penn ac fe ddaethant yn gyfeillion mynwesol. Maes o law daeth yn feddyg personol i William Penn. Daeth hefyd i gysylltiad â'r Lenni Lenâpe, sef trigolion brodorol Delaware, gan ddatblygu perthynas heddychlon rhyngddynt a'r mewnfudwyr. Dychwelodd i Gymru rhwng 1684 a 1686 pryd yr ysgrifennodd, 'A farewell of endeared love to Ould England a Wales...' Ni chyhoeddwyd y gwaith ond y mae'n bwysig oherwydd ymddengys mai dyma'r datganiad cyntaf o blaid heddychiaeth gan Gymro Cymraeg. Dychwelodd i Lewes yn America lle y bu farw ar 17 Mawrth 1692, ac fe'i claddwyd ym Mynwent y Cyfeillion yn Philadelphia.